**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

**PAPURAU BUSNES**

**Dydd Mercher 19 Mai**

**Rhan 2 – Adran H**

**COFNOD O BLEIDLEISIAU A THRAFODION DYDD MAWRTH 18 MAI**

**Datganiadau gan y Llywydd**

Gwnaeth y Llywydd nifer o ddatganiadau ar y materion canlynol:

i. Seddau'r Siambr
ii. Defnyddio meicroffonau
iii. E-bost yn y Siambr
iv. Hysbysiad ymlaen llaw i'r Llywydd am yr awydd i siarad mewn trafodaeth
v. Dyfarniad y Llywydd o dan RhS 6.28 ar dderbynioldeb cwestiynau llafar.

Ei ddyfarniad yw nad yw cwestiynau penagored yn dderbyniol.

## Pwyllgor Busnes

**Cynnig** *bod y Cynulliad o dan reol sefydlog 13.2, yn ethol yr Aelodau canlynol i'w Bwyllgor Busnes*:

*Andrew Davies (Llafur)*

*Ieuan Wyn Jones (Plaid Cymru)*

*Jenny Randerson (Democratiaid Rhyddfrydol)*

*David Davies (Ceidwadwyr)*

*A hefyd Jane Davidson (Dirprwy Lywydd) i'w gadeirio.*

Cynigiwyd y cynnig gan Y Trefnydd.

Cymeradwywyd y cynnig heb bleidlais.

**Datganiad Busnes:**

Cynigiodd y Trefnydd ddatganiad busnes

Cafwyd gwerthwynebiad gan y Blaid Geidwadol gyda 10 yn gwrthwynebu.

Yn dilyn cyfraniadau gan bob Plaid cytunwyd ar y datganiad busnes.

**Cod Safonau ar Ymddygiad**

**Cynnig** *bod y Cynulliad yn penderfynu mabwysiadu, fel ei God Safonau ar gyfer Aelodau, y ddogfen dan yr enw hwnnw a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Mai 1999*.

Cynigiwyd y cynnig gan y Trefnydd

Cymeradwywyd y cynnig (yn unfrydol) heb ddadl.

**Cod Ymddygiad ar gyfer Ysgrifenyddion y Cynulliad**

**Cynnig** *bod y Cynulliad, dan reol sefydlog 2.7, yn penderfynu cymeradwyo'r Canllawiau i Ysgrifenyddion y Cynulliad ar gyflawni eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau'n briodol, a geir yn y ddogfen dan y teitl "Cod Ymddygiad ar gyfer Ysgrifenyddion y Cynulliad", a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Mai 1999*.

Cynigiwyd y cynnig gan y Trefnydd

Cytunwyd ar y cynnig gyda'r gwelliant canlynol:

Para 3.5 llinell 2 ar ôl Pwyllgor Ymchwilio rhodder "a'r Pwyllgor Deddfau."

- cytunodd y Cynulliad hefyd y dylai rhai elfennau gael eu hystyried gan y Pwyllgor Safonau (neu'r Pwyllgor Busnes yn y tymor byr) ac y dylid dod â'r ddogfen ddiwygiedig yn ôl gerbron y sesiwn lawn.

**Cod Ymddygiad yn y Siambr**

**Cynnig** *bod y Cynulliad yn penderfynu mabwysiadu, fel ei God Ymddygiad yn y Siambr, y ddogfen dan yr enw hwnnw a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Mai 1999*.

Cynigiwyd y cynnig gan y Trefnydd.

Cymeradwywyd y cynnig.

**Penderfyniad i ddirprwyo swyddogaethau i'r Prif Ysgrifennydd**

**Cynnig**

*(1) bod y Cynulliad, gan weithredu dan adran 62(1)(b) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, yn penderfynu dirprwyo, yn amodol ar baragraff (2) ac unrhyw benderfyniad arall gan y Cynulliad, ei swyddogaethau i Brif Ysgrifennydd y Cynulliad.*

*(2) Nid yw paragraff (1) yn ymwneud ag unrhyw swyddogaeth y mae'r Cynulliad wedi'i rwystro rhag ei dirprwyo dan y Ddeddf honno.*

Cynigiwyd y cynnig gan y Trefnydd.

Cynigiodd Mike German gynnig trefniadol (o dan RhS 6.16) i gyfeirio'r cynnig at y Pwyllgor Busnes.

Cytunodd y Trefnydd i fynd â'r cynnig gerbron y Pwyllgor Busnes.

*************************************************************

**Daeth y sesiwn i ben am 14.54pm**

**Bydd y Cynulliad yn cyfarfod yn llawn eto am 2pm ddydd Mercher 19 Mai 1999**

J W Lloyd

Clerc y Cynulliad Cenedlaethol